# Cynnig Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol ac Ychwanegol

## *(Ionawr 2021)*

**Rhagarweiniad**

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno cwmpas y ddarpariaeth ddysgu gyffredinol ac ychwanegol sydd ar gael yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, i awdurdodau lleol, ysgolion a darpar ddysgwyr, rhieni a gofalwyr. Mae wedi'i chynllunio i gefnogi dealltwriaeth well a rhanedig o ddarpariaeth addysg bellach a hyfforddiant rhwng colegau ac asiantaethau lleol.

### Ysbrydoli Dysgwyr, Cyflawni Potensial ac Ennill Rhagoriaeth Drwy Ddiwylliant o Gynwysoldeb

**Mae gan Goleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion dîm ymroddedig o athrawon arbenigol i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau ac anghenion meddygol.**

Mae'r coleg yn ymrwymedig i ddarparu ystod lawn o addysg bellach a hyfforddiant hygyrch o fewn y gymuned mae'n ei gwasanaethu. Drwy ei ddarpariaeth ddysgu gyffredinol ac ychwanegol, ei nod yw sicrhau bod yr holl ddysgwyr sydd wedi cofrestru yn gallu gwneud cynnydd ardderchog o fewn y cyrsiau a gynigir. Mae pob un o'n campysau'n cynnig cyrsiau wedi'u cynllunio i baratoi pobl ifanc ar gyfer astudio pellach a/neu gyflogaeth. I gael manylion llawn y rhaglenni a gynigir, cyfeiriwch at ein gwefan – www.colegsirgar.ac.uk / www.colegceredigion.ac.uk.

Mae ein campysau wedi cael eu cynllunio neu'u haddasu i ddarparu amgylchedd hygyrch ar gyfer ein holl ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny â chyflyrau corfforol a synhwyraidd.

Mae staff Cymorth Dysgu ar gael ar bob campws i gynorthwyo dysgwyr gyda'u hastudiaethau. Rydyn ni'n croesawu ac yn dathlu niwroamrywiaeth ac, fel coleg, rydyn ni'n croesawu dysgwyr â ffyrdd amrywiol o ddysgu i'n hamgylchedd dysgu cynhwysol. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda staff addysgu'r cwricwlwm a Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) i sicrhau bod addysgu a dysgu yn hygyrch i'r holl ddysgwyr. Mae'r holl gymorth wedi'i gynllunio i feithrin annibyniaeth dysgwyr yn amgylchedd y coleg a thu hwnt.

Mae gennym **ddull person-ganolog** - mae dysgu, dyheadau a dymuniadau'r person ifanc wrth wraidd y daith addysgol yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys yn y broses o gynllunio a thrafod cymorth, gwneud penderfyniadau ac adolygu ymyriadau cymorth. Mae gan bob campws Barth Astudio lle gall dysgwyr weithio mewn amgylchedd tawel a chefnogol.

Mae ein dull cynhwysol o addysgu a dysgu yn golygu ein bod yn gallu bodloni anghenion y mwyafrif o ddysgwyr ac rydyn ni'n cymryd pob cam rhesymol (gan roi sylw priodol i'r Ddeddf Cydraddoldeb) i sicrhau ein bod yn darparu addysgu o ansawdd uchel a chymorth priodol, yn seiliedig ar asesiad person-ganolog o anghenion pob dysgwr.

**Derbyniadau**

Wrth ystyried ceisiadau dysgu oddi wrth bobl ifanc (16 i 25) ag anghenion dysgu ychwanegol, defnyddir y meini prawf canlynol:

- A yw'r coleg yn gallu darparu'r cwricwlwm, yr arbenigedd a'r amgylchedd fydd yn galluogi Person Ifanc i gyrraedd ei botensial?
- A fydd cofrestru ar gwrs yn y coleg yn atal Person Ifanc rhag cael mynediad i therapïau a gwasanaethau y bernir i fod yn angenrheidiol iddo er mwyn gwneud cynnydd rhesymol tuag at ei gyrchnodau addysg a hyfforddiant?
- A yw'r coleg yn gallu bodloni anghenion y Person Ifanc heb effeithio'n negyddol ar ei les neu les dysgwyr eraill neu staff?

**Egwyddorion**

Mae cwrs coleg, i lawer o'n dysgwyr, yn cynnig cyfle addysg a hyfforddiant pwysig cyn cyflogaeth a/neu fywyd oedolyn. Credwn ni ei fod yn hanfodol i annog pobl ifanc i ddod mor annibynnol â phosibl, yn eu dysgu a hefyd yn eu sgiliau ar gyfer bywyd. Mae ein dull, er yn gefnogol, wedi'i gynllunio i annog annibyniaeth ac i ddarparu sgiliau a strategaethau i ddysgwyr y gallant eu defnyddio yn y coleg, mewn cyflogaeth ac mewn bywyd fel oedolyn.

**Darpariaeth Ddysgu**

Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion o bob oed. Mae ganddo amgylchedd agored ac mae'n debygol o weddu i anghenion pobl ifanc sy'n gallu rheoli eu hymddygiad a'u lles o fewn y math hwn o leoliad. Er ein bod yn anelu at gefnogi anghenion addysg a hyfforddiant ein holl ddysgwyr, nid ydym yn gallu cynnig therapïau neu wasanaethau tra arbenigol megis:

- Therapi iaith a lleferydd
- Ffisiotherapi
- Therapi galwedigaethol
- Therapïau siarad arbenigol
- Hydrotherapi
- Therapi adlam

Fodd bynnag, rydyn ni'n hapus i weithio gyda darparwyr eraill, megis gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, lle mae hyn yn hyrwyddo lles a/neu gynnydd ar gyfer dysgwr.

## Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol (ULP)

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o wasanaethau cymorth i'r **holl** ddysgwyr. Mae hyn yn debygol o fodloni anghenion mwyafrif helaeth ein dysgwyr ac mae'n cynnwys y canlynol:

| **Gwasanaeth** | **Tebygol o fodloni anghenion ……..** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| Addysgu a dysgu cynhwysol, sy'n cynnwys gwahaniaethu yn y dosbarth | Mwyafrif y dysgwyr | Mae ein staff wedi cael hyfforddiant mewn ymarfer cynhwysol ac mae ganddynt fynediad i gyngor ac arweiniad ychwanegol oddi wrth ein tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN). |
| Tiwtorialau grŵp yn y dosbarth | Mwyafrif y dysgwyr | Mae ein sesiynau tiwtorial yn cynnwys ystod o destunau i annog datblygiad personol a pharatoad ar gyfer bywyd oedolyn. |
| Tiwtorialau Personol | Mwyafrif y dysgwyr | Caiff dysgwyr y cyfle i gael cyfweliad tiwtorial un i un gyda'u tiwtor personol. Mae trafodaethau'n cynnwys gosod ac adolygu targedau dysgu, dilyniant academaidd neu yrfaol, ceisiadau UCAS, a chyfeiriadau cymorth (academaidd a/neu fugeiliol). |
| Technoleg Gynorthwyol | Mwyafrif y dysgwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n cael mynediad i ddarpariaeth Cymorth Dysgu | Mae gan yr holl gyfrifiaduron o fewn y coleg y meddalwedd canlynol:<br>• Offer dysgu Google (gan gynnwys immersive reader a screen masking)<br>• TextHelp Read & Write (yn darparu testun i leferydd ac offer cymorth cynllunio)<br>• Offer chwyddo sylfaenol |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Meddalwedd mapio meddwl |
| Cael benthyg cyfarpar dros dro, megis chromebooks, gliniaduron a Dictaffonau | Rhai dysgwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n cael mynediad i ddarpariaeth Cymorth Dysgu | Gall dysgwyr ofyn y tiwtoriaid cwrs am gael benthyg cyfarpar, yn dibynnu ar argaeledd a meini prawf penodol y coleg. |
| Offeryn Sgrinio Niwroamrywiaeth Holiadur Proffil Dysgwyr | Mwyafrif y dysgwyr | Gall dysgwyr gwblhau Offeryn Sgrinio Niwroamrywiaeth Cymorth Dysgu yn ystod proses Gynefino'r Coleg. Mae'r sgriniwr yn galluogi dysgwyr i adfyfyrio ynghylch eu proffil dysgu unigol i nodi gofynion cymorth academaidd posibl yn ystod eu cwrs. |
| Asesu a darparu ar gyfer trefniadau mynediad i arholiadau (EAA) | Unrhyw ddysgwr y mae ei broffil dysgu a'i ffordd arferol o weithio yn ei wneud yn gymwys ar gyfer trefniadau mynediad i arholiadau. Gall dysgwyr sydd dan anfantais ddiweddar neu dros dro oherwydd damwain, problem neu gyflwr meddygol hefyd fod yn gymwys ar gyfer EAA | Mae addasiadau rhesymol yn cynnwys:<br>• Amser Ychwanegol<br>• Darllenydd a/neu ysgrifennydd<br>• Egwyliau gorffwys<br>• Defnydd o gyfrifiadur i gwblhau arholiad<br>• Papurau wedi'u helaethu neu'u haddasu. |
| Cymorth pontio | Mwyafrif y dysgwyr | Yr holl ddysgwyr a all fod yn cael symud i'r coleg yn broses anodd, e.e. dysgwyr â phryder neu broblemau eraill y gall fod angen cymorth arnynt gyda'r pontio.<br><br>Gellir gwneud trefniadau i gynnig ymweliadau ar adegau tawel, ymweliadau â champysau, cyfeiriadu, cyfweliadau gyda chymorth ac ymgysylltiad â gweithgareddau pontio'r haf. |
| Anogwyr tîm lles, cydlynwyr, cynghorwyr a swyddogion cyswllt cyllid | Ar gael i ddysgwyr sy'n profi heriau personol gyda:<br>• Lles personol<br>• Iechyd meddwl<br>• Cyfyngiadau ariannol | Tiwtor neu broses gyfeirio annibynnol |

| | | |
|---|---|---|
| | • Achosion pryder eraill | |
| Mynediad i sesiynau llythrennedd a/neu rifedd | Mwyafrif y dysgwyr | Gall dysgwyr gael mynediad i sesiynau llythrennedd a rhifedd (WEST neu Sgiliau Hanfodol) fel rhan o'u rhaglen goleg. |
| Cymorth galw heibio o fewn y Canolfannau Adnoddau Dysgu (LRC) | Mwyafrif y dysgwyr | Gall ein Llyfrgellwyr LRC ddarparu cymorth gyda:<br>• Sgiliau Ymchwil<br>• Dod o hyd i wybodaeth<br>• Cyfeirnodi<br>• Cyngor ar gyfer sgiliau astudio<br>• Adnoddau lles<br>• Prynu eitemau traul e.e. pennau. |
| Cael mynediad i le tawel | Mwyafrif y dysgwyr | Ar gael yn y Canolfannau Adnoddau Dysgu. |
| Gweithgareddau Cyfoethogi | Mwyafrif y dysgwyr | Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:<br>Rhaglen diwtorial<br>Undeb y Myfyrwyr<br>Byddwch actif<br>Gweithgareddau chwaraeon<br>Clybiau, grwpiau a chymdeithasau<br>Cymunedau ar-lein traws-gampws<br>Llysgenhadon Myfyrwyr<br>Cynrychiolwyr dosbarth a Chyngor y Dysgwyr. |
| Sgiliau cyflogadwyedd a Chyngor Gyrfaol | Mwyafrif y dysgwyr | Gall dysgwyr gael mynediad i gymorth cyflogadwyedd a datblygu gyrfa, cyngor ac arweiniad i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd oddi wrth y Tîm Cyflogadwyedd. |
| Mynediad i gymorth Digidol / TGCh | Mwyafrif y dysgwyr | Gall dysgwyr gael mynediad i gyngor a chymorth technegol gan diwtoriaid a'r Ddesg Gymorth MIS. |

## Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (ALP)

Gall fod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar ddysgwyr sy'n astudio yn y coleg mewn addysg bellach a hyfforddiant, nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni gan y ddarpariaeth ddysgu gyffredinol sydd ar gael. Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn gallu cynnig yr ystod ganlynol o gymorth, i ddysgwyr â thystiolaeth feddygol neu ddiagnostig gymwys:

| **ALP** | **Tebygol o fodloni anghenion ……..** | **Ar gael yn…** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Campws Aberystwyth** | **Campws Aberteifi** | **Campws Rhydaman** | **Campws Y Gelli Aur** | **Campws y Graig** | **Campws Ffynnon Job** | **Campws Pibwrlwyd** | **Darpariaeth DSW (WBL)** |
| Mynediad i staff cymorth addysgu ac asesu Lefel 5 neu 7 SpLD arbenigol a chymwysedig | Ar gyfer dysgwyr sydd ag Angen Dysgu Ychwanegol ac sydd eisiau cymorth gydag astudiaethau academaidd a sgiliau astudio. Mae'r athro arbenigol yn darparu cymorth trwy ddull Ymarfer Person-Ganolog, mae'n cynorthwyo gydag ysgrifennu Proffiliau Un-Dudalen ac yn cynnig hyfforddiant gyda meddalwedd arbenigol.<br><br>Yn ychwanegol, mae athrawon arbenigol yn cynnig datblygiad annibyniaeth pwrpasol, meithrin hyder, sgiliau cyflwyno ysgrifenedig a llafar, paratoi ar gyfer cyfweliadau, datblygiad gyrfaol a gweithio tuag at uchelgeisiau personol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth a rennir yn y dosbarth | Darparu cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN). Mae'r ddarpariaeth cymorth a rennir yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau academaidd i gyrraedd eu potensial. Mae'r Cynorthwywyr Cymorth Dysgu (LSA) yn mabwysiadu fframwaith 'Gwella Arferion Cynorthwywyr Addysgu Gymaint â Phosibl' (MPTA) i hybu a datblygu annibyniaeth dysgwyr. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymorth caeedig yn y dosbarth | Pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol dwys neu gymhleth iawn sydd angen cymorth yn ystod y rhan fwyaf o'u hamser yn y dosbarth er mwyn iddynt wneud cynnydd rhesymol. Neilltuir hyn ar sail person-ganolog. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymorth oddi wrth athro Cymorth Dysgu hyfforddedig yn Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) a chynorthwyydd | Gall dysgwyr awtistig gael cymorth gan athrawon arbenigol hyfforddedig a LSAs yn y dosbarth. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Arwyddwr BSL/ gweithiwr cymorth cyfathrebu (Lefel 1 a 2) | Ar gyfer dysgwyr â nam ar y clyw. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dehonglydd BSL (Lefel 3 neu uwch) | Ar gyfer dysgwyr sy'n hollol fyddar ac sy'n dibynnu ar BSL er mwyn cyfathrebu. | | | | | | | | |
| Cymorth Cyfathrebu | Gall dysgwyr gael mynediad i gymorth gan berson profiadol a hyfforddedig mewn cyfathrebu gyda phobl ag anghenion cyfathrebu penodol. | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth gofal personol | Ar gyfer dysgwyr sydd â chyflyrau corfforol/meddygol sydd angen cymorth gyda gofal personol. | | | ✓ | | ✓ | | | |
| Cymorth Pontio Estynedig | Yr holl ddysgwyr a all fod yn cael symud i'r coleg yn broses anodd, e.e. dysgwyr â phryder neu broblemau eraill y gall fod angen cymorth arnynt gyda'r pontio.<br><br>Gellir gwneud trefniadau i gynnig ymweliadau ar adegau tawel, ymweliadau â champysau, cyfeiriadu, cyfweliadau gyda chymorth ac ymgysylltiad â gweithgareddau pontio'r haf.<br><br>Gall dysgwyr gael mynediad i fideos seiliedig ar gampws i gefnogi cyfeiriadu. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mynediad i le dynodedig | Ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu lefelau uchel o bryder ac mae arnynt angen mynediad rheolaidd i le diogel er mwyn eu galluogi i ymdopi â bywyd coleg. | | | | | | | | |
| Cymorth i'r dosbarth ac oddi yno a/neu gludiant | Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gorfforol yn gallu trosglwyddo o gludiant i ddosbarth heb gymorth. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mynediad i gymorth dysgu wedi'i amserlennu | Ar gyfer dysgwyr sydd angen lefelau uwch o gymorth unigol gyda dysgu na'r hyn sydd ar gael trwy Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol (ULP) ac nid yw cymorth yn y dosbarth yn briodol ar eu cyfer. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaethau cefnogi ymddygiad | Ar gyfer dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol i reoli eu hymddygiad eu hunain, ble bo'n briodol, ar y cyd ag asiantaethau cyngor ac arweiniad allanol arbenigol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Tywysydd gweld | Ar gyfer dysgwyr ar gofrestr y deillion i lywio eu ffordd o gwmpas y campysau. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymorth Saesneg ar gyfer myfyrwyr byddar | Ar gyfer dysgwyr byddar sydd ag Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel eu hiaith gyntaf ac sy'n methu mynegi eu syniadau'n ysgrifenedig heb gymorth ychwanegol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymerwr nodiadau neu gofnodwr | Ar gyfer dysgwyr byddar sy'n methu cymryd nodiadau oherwydd eu hangen i ddarllen gwefus y tiwtor. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cael benthyg cyfarpar arbenigol | Ar gyfer pobl ifanc sydd angen cyfarpar arbenigol er mwyn gwneud cynnydd rhesymol ar eu cwrs. Darperir y cyfarpar ar sail Ymarfer Person-Ganolog ar y cyd ag ymgynghoriad allanol arbenigol.<br><br>Mae'r cyfarpar sydd ar gael yn cynnwys:<br>• Cymhorthion radio a geir ar sail dysgwyr unigol, seiliedig ar ganllawiau tystiolaeth feddygol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darpariaeth cludiant | Ar gyfer pobl ifanc sy'n cael teithio ar gludiant prif ffrwd yn heriol ac sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwneud cais am gludiant ychwanegol, e.e. darpariaeth tacsi. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyfforddiant teithio | Ar gyfer pobl ifanc sydd â'r potensial i ennill annibyniaeth o ran teithio i'r coleg ac oddi yno. | | | | | | | | |

# Darpariaeth Annibynnol

Mae gennym ystod o raglenni annibynnol ar gyfer pobl ifanc sy'n methu cael mynediad i raglenni prif ffrwd oherwydd eu hanawsterau dysgu ac sydd fel arfer yn ymadawyr ysgol (ôl-16 neu ôl-19).

**Coleg Ceredigion**

| Rhaglenni wedi'u hanelu at… | Teitl y Cwrs | Hyd | Dyddiau/wythnos | Aberystwyth | Aberteifi |
|---|---|---|---|---|---|
| Dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu cymedrol. | **Mynediad Galwedigaethol (Llawn Amser)**<br>Cwrs dysgwr ganolog yw hwn wedi'i gynllunio i gefnogi datblygiad Sgiliau Dysgu Annibynnol, Sgiliau Cyfathrebu a Rhifedd, Sgiliau Byw'n Iach, Sgiliau ar gyfer Gwaith, a Chyfranogiad Cymunedol. Yn aml mae dysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau AB, gwirfoddoli neu waith (gyda chymorth neu heb gymorth). Ble bo'n briodol, bydd dysgwyr yn ymgymryd â chymhwyster. | 1-3 blynedd | 3 | ✓ | |
| Dysgwyr o bob oed o'r gymuned leol ag anableddau ac anawsterau dysgu dwys a chymedrol. | **Mynediad Galwedigaethol (Rhan-amser)**<br>Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu ymhellach eu Sgiliau Byw'n Annibynnol, Sgiliau Cyfathrebu a Rhifedd, Sgiliau Byw'n Iach, Sgiliau ar gyfer Gwaith (gwirfoddoli a ble bo'n briodol, gwaith â chymorth), a Chyfranogiad Cymunedol yn | 1-3 blynedd | 1 | ✓ | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | seiliedig ar eu diddordebau a'u hanghenion unigol. | | | | |
| | | | | | |
| Dysgwyr o bob oed o'r gymuned leol ag anableddau ac anawsterau dysgu dwys a chymedrol. | **Mynediad Galwedigaethol - Celfyddydau a Chrefftau (Rhan-amser)**<br>Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i alluogi dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau creadigol i feithrin annibyniaeth | 1-3 blynedd | 0.5 | | ✓ |
| Pobl ifanc ag anawsterau dwys a lluosog sy'n debygol o fod angen cymorth ar hyd eu bywydau. | **Camu 'Mlaen (Llawn Amser)**<br>Cwrs anachrededig, person-ganolog yw hwn gydag ymagwedd holistig ac ymarferol tuag at ddysgu. Mae dysgwyr yn gyfranogwyr gweithredol o ran creu ac adolygu eu targedau dysgu unigol a gweithio tuag at eu cyrchnodau yn y dyfodol. Y nod yw paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd fel oedolyn a chefnogi pob unigolyn i gyflawni ei botensial a chymryd rhan weithredol yn ei gymuned ar ôl y coleg. Mae'r rhaglen ddysgu'n seiliedig ar bedwar piler dysgu ILS:<br>• Iechyd a Lles<br>• Cynhwysiad Cymunedol<br>• Byw'n Annibynnol<br>• Cyflogadwyedd | 1-3 blynedd | 3 | ✓ | |

**Coleg Sir Gâr**

| Rhaglenni wedi'u hanelu at… | Teitl y Cwrs | Hyd | Dyddiau/wythnos | Campws Rhydaman |
|---|---|---|---|---|
| Ar gyfer pobl ifanc sy'n debygol o fod angen llawer o gymorth ar hyd eu bywydau ac sy'n methu byw'n annibynnol | **Cyflwyniad i'r Coleg**– Mae'r cwrs hwn wedi'i deilwra'n unigol i fodloni anghenion y dysgwr ac mae'n deillio o asesiad sylfaenol a gyflawnwyd cyn dechrau. Mae hwn yn Gwrs anachrededig seiliedig ar darged. Mae'n cynnwys:<br>• Hunanofal<br>• Cyfathrebu a gwneud dewisiadau<br>• Rhyngweithio cymdeithasol<br>• Datblygu meysydd annibyniaeth<br>• Defnyddio amser mewn modd positif | 1 flwyddyn | 3 | ✓ |
| Ar gyfer pobl ifanc sy'n debygol o fod angen llawer o gymorth ar hyd eu bywydau ac sy'n methu byw'n annibynnol | **Cyflwyniad i Gyflogaeth**– Mae'r cwrs hwn wedi'i deilwra'n unigol i fodloni anghenion y dysgwr ac mae'n deillio o asesiad sylfaenol a gyflawnwyd cyn dechrau. Mae hwn yn Gwrs anachrededig seiliedig ar darged. Mae'n cynnwys:<br>• Hunanofal<br>• Cyfathrebu a gwneud dewisiadau<br>• Rhyngweithio cymdeithasol<br>• Datblygu meysydd annibyniaeth<br>• Defnyddio amser mewn modd positif<br>• Lleoliad gwaith â chymorth | 1 Flwyddyn | 3 (4 gyda chyllid CS) | ✓ |
| Ar gyfer pobl ifanc sy'n gweithio tuag at fyw'n annibynnol neu'n lled-annibynnol ac sydd angen canolbwyntio ar sgiliau byw | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol (Mynediad 2)**– Mae'r cwrs hwn wedi'i deilwra'n unigol i fodloni anghenion y dysgwr ac mae'n deillo o asesiad sylfaenol a gyflawnwyd cyn dechrau. Mae'n cynnwys:<br>• Bwyta'n dda<br>• Sgiliau Byw<br>• Cyllidebu<br>• Byw yn y gymuned<br>• Gweithgareddau hamdden | 1 flwyddyn | 3 | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Meithrin Hyder<br>• Sgiliau Personol<br>• Hunaniaeth Ddiwylliannol | | | |
| Ar gyfer pobl ifanc sydd ag uchelgais i ennill cyflogaeth ond sydd angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol i gyrraedd y cyrchnod hwn. | **Sgiliau ar gyfer Annibyniaeth a Gwaith (Mynediad 2)** – Mae'r cwrs hwn yn cynnwys ystod o fodiwlau sy'n cynnwys:<br>• Gyrfaoedd<br>• Sgiliau galwedigaethol<br>• Llythrennedd a rhifedd yn y gwaith<br>• Dod o hyd i a chael cyflogaeth<br>• Paratoi i weithio<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Cyfathrebu yn y gwaith<br>• Delio gyda phroblemau yn y gwaith<br>• Gwella Annibyniaeth<br>• Ffyrdd o fyw | 1 flwyddyn | 3 | ✓ |
| Ar gyfer pobl ifanc sydd ag uchelgais i symud ymlaen yn eu haddysg neu chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli ond sydd angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol i gyrraedd y cyrchnod hwn. | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol (Mynediad 3) -** Mae'r cwrs hwn yn cynnwys ystod o fodiwlau sy'n cynnwys:<br>• Gyrfaoedd<br>• Ffyrdd o fyw<br>• Llythrennedd a rhifedd yn y gwaith<br>• Dod o hyd i a chael cyflogaeth<br>• Paratoi i weithio<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Cyfathrebu yn y gwaith<br>• Delio gyda phroblemau yn y gwaith<br>• Profiad gwaith estynedig<br>• Aseiniadau Ymarferol | 1 Flwyddyn | 3 (4 gyda chyllid CS) | ✓ |
| Ar gyfer unigolion sydd am astudio ar sail ran-amser | **Rhaglen Ddysgu Ran-amser i Oedolion-** Mae'r Cwrs yn cynnwys modiwlau sy'n cynnwys-<br>• Sgiliau byw<br>• Lles | 1 flwyddyn | 0.5 | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Cyfathrebu<br>• Sgiliau Cymdeithasol<br>• Hyder<br><br>Sgiliau byw - Cwmpesir hyn mewn sesiynau megis coginio, diogelwch yn y gegin, bwyta'n iach, siopa a dewis personol.<br><br>Lles- Trwy gelf, crefft a cherddoriaeth mae dysgwyr yn gallu mynegi eu hunain, cyfathrebu a meithrin hyder.<br><br>Cyfathrebu- Mae'n rhan o bob sesiwn, gan annog y dysgwr i wneud ei ddewisiadau ei hun, cyfathrebu gydag eraill a mynegi ei deimladau. Gall cyfathrebu fod trwy'r gair llafar yn y Gymraeg a Saesneg, offeryn cyfathrebu Pecs, iaith arwyddion a chymhorthion gweledol.<br><br>Sgiliau cymdeithasol- Mae'r rhain hefyd wedi'u hymgorffori fel rhan o'r holl sesiynau Mae datblygu sgiliau cymdeithasol dysgwyr yn allweddol wrth eu helpu nhw i ffurfio cyfeillgarwch a chlymau agosrwydd gydag eraill.<br><br>Hyder- ethos cyfan y cwrs yw gwella hyder y dysgwyr, eu hunan-barch a'u sgiliau byw. | | | |